**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**10:00 yb 12 Mawrth 2021**

**Cyfarfod rhithiol**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. Richard O Jones
Cyng. John Arwel Roberts
Cyng. Robin Williams

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Anne Lloyd Jones
Cyng. Gareth Griffith
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Gareth Roberts
Cyng. Berwyn Parry Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Dewi Francis Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol, Amgylchedd (CG) |
| Rebeca Jones | Rheolwr Polisi Cynllunio (GPCC) |
| Heledd Jones | Arweinydd Tîm – (GPCC) |

**Ymddiheuriadau:**
Dim i'w nodi

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

- Cyng. Anne Lloyd Jones - Personol ac yn rhagfarnu - Y drafodaeth yn ymwneud a'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Unigolyn hefo diddordeb personol yn y maes hwn.
- Cyng Richard Dew - Personol ac yn rhagfarnu - Y drafodaeth yn ymwneud a'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Unigolyn hefo diddordeb personol yn y maes hwn.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2021 fel rhai cywir.

**5. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID**

Cafwyd cyflwyniad gan Heledd Jones oedd yn gosod allan y camau hyd yma yn ymwneud a datblygu'r CCA, yn cynnwys yr ymgynghoriadau blaenorol. Nodwyd fod y Gwasanaeth wedi derbyn 15 sylw dilys mewn perthynas â'r CCA. Esboniwyd mai dim ond rhannau penodol o'r CCA oedd yn destun ymgynghoriad yn ystod y cyfnod yma a derbyniwyd 8 sylw na ystyriwyd yn ddilys gan eu bod yn ymwneud a rhannau o'r CCA oedd ddim yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus. Esboniwyd y sylwadau oedd wedi ei dderbyn ag ymateb y Gwasanaeth i'r sylwadau yn cynnwys, ble yn briodol newidiadau oedd y Gwasanaeth yn cynnig ei wneud i'r CCA mewn ymateb i rai o'r sylwadau.

Materion a Godwyd

- Dim materion yn codi

**Penderfyniad**

**Cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r sylwadau am y Canllaw Cynllunio Atodol a mabwysiadu'r Canllaw Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid**

Diwedd